# NEWYDDIADURAETH O BEDWAR BAN BYD

## BYWGRAFFIADAU

### ILLTUD DAFYDD

Newyddiadur chwaraeon yw Illtud sy'n ysgrifennu i Agence France-Presse ym Mharis ers 2018 ar ôl treulio dwy flynedd yn gweithio yn llawrydd i BBC Sport Wales a chwmnïau cynhyrchu teledu yng Nghymru.

Astudiodd gwleidyddiaeth ryngwladol a Ffrangeg ym Mhrifysgol Aberystwyth cyn dilyn cwrs Meistr mewn newyddiaduraeth darlledu ym Mhrifysgol Caerdydd.

Yn Ffrainc mae’n arbenigo mewn dilyn rygbi, y tîm cenedlaethol Les Bleus a chlybiau'r wlad i gynulleidfa ryngwladol gyda AFP, ymysg y tair asiantaeth newyddion mwyaf yn y byd ar y cyd gyda Reuters ac Associated Press. Mae e hefyd yn dilyn hynt a helynt y byd seiclo a phêl-droed Ewropeaidd a ryngwladol, gan gynnwys tîm Cymru.

### MEGAN DAVIES

Mae Megan Davies yn gweithio fel newyddiadurwr gyda BBC Cymru. Yn wreiddiol o Abertawe, mae hi bellach yn gweithio yn y byd darlledu yng Nghaerdydd. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae hi wedi gweithio'n benodol i BBC Radio Cymru.

Astudiodd Ffrangeg a llenyddiaeth Saesneg ym Mhrifysgol Caerwysg cyn symud i wneud cwrs M.A Newyddiaduraeth Darlledu ym Mhrifysgol Caerdydd. Yno ennillodd Ysgoloriaeth T. Glynne Davies.

Mae gan Megan brofiad o weithio yn y byd ffasiwn. Yn 2017 gweithiodd i gwmni couture Ralph & Russo ym Mharis cyn symud i wneud cyfnod gyda Vogue Paris.

# ANDY BELL

Mae Andy Bell wedi gweithio am dros bedwar degawd yn y maes darlledu. Ar ôl graddio o CP Abertawe, fe gychwynnodd ei yrfa gyda radio masnachol yng Nghaerdydd ac Abertawe cyn symud i'r BBC yng nghanol yr wythdegau.

Symudodd i Awstralia ym 1988 ac oddi ar hynny fe yw “llais Awstralia” i gyfryngau Cymraeg - mae e wedi cyfrannu i Radio Cymru, S4C, Golwg 360 a Barn. O ran gwaith yn Oz roedd yn ohebydd/cynhyrchydd yn teledu rhanbarthol, Channel 9, Network 10 a'r ABC. Fe dreuliodd ugain mlynedd yn rhengoedd yr ABC, fersiwn Awstralia o'r BBC, gan weithio yn Sydney, Melbourne a Canberra.